TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

City & Guilds Diploma NVQ in Hairdressing Level 3

Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu'r egwyddorion sylfaenol a'r sgiliau ymarferol uwch sydd eu hangen o fewn y diwydiant trin gwallt. Mae'n ddelfrydol ar gyfer y rhai sy'n cael eu cyflogi mewn salon trin gwallt ar hyn o bryd a chynhelir yr holl asesiadau yn y gweithle.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un sy'n gweithio/gyflogedig mewn amgylchedd salon trin gwallt â chleientiaid rheolaidd

...y rhai sydd wedi cwblhau cymhwyster Lefel 2 mewn Trin Gwallt

...unrhyw un sydd yn frwd dros drin gwallt

...gweithwyr diwyd â sgiliau cyfathrebu da.

Cynnwys y cwrs

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Yn ystod y cwrs hwn, byddwch yn edrych ar unedau fel

Ymgynghoriadau â'r cleient
Technegau cywiro lliw a sgiliau lliwio uwch
Sgiliau torri uwch mewn modd creadigol
Cynllunio a chyflwyno gweithgareddau hyrwyddo
Trin gwallt hir mewn modd creadigol ar gyfer amrywiaeth o achlysuron
Gwallt priodasol
Torri gwallt dynion
Iechyd a diogelwch
Sgiliau Cyflogadwyedd

Bydd y cwrs hwn yn datblygu eich sgiliau trin gwallt canolradd ac yn eich helpu chi i ddatblygu technegau mwy creadigol.

Gofynion Mynediad

Bydd angen i chi feddu ar gymhwyster Lefel 2 Trin Gwallt cyn cael eich derbyn ar y cwrs hwn.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen i chi fod yn weithgar a chyfeillgar a bydd angen i chi gael sgiliau cyflwyno personol o safon uchel, yn ogystal â'r gallu i gymell eich hun.